# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Gorffennaf 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00-13.30)**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(Tudalennau 1 - 5)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-14-20(P1) Llythyr at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

## 3 Covid-19: Trafnidiaeth Gyhoeddus - Trafnidiaeth i Gymru

(13.30-14.15) (Tudalennau 6 - 20)

James Price, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-14-20(P2) Papur Briffio

## Egwyl (14.15-14.25)

## 4 Covid-19: Manwerthu, Lletygarwch a Thwristiaeth

(14.25-15.25)

Sara Jones, Consortiwm Manwerthu Cymru

Andrew Campbell, Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru

Yr Athro Nigel Morgan, Ysgol Lletygarwch a Rheoli Twristiaeth, Prifysgol Surrey

David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Lletygarwch y DU

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.25)

## 6 Preifat

(15.25-15.45)

COVID-19: Ystyried tystiolaeth

Ken Skates AS
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd

23 Mehefin 2020

Annwyl Ken,

Ar 18 Mehefin, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr yr undebau trafnidiaeth, Maes Awyr Caerdydd a gweithredwyr bysiau, er mwyn ystyried effeithiau pandemig y coronafeirws ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn dilyn y cyfarfod, mae nifer o feysydd yr hoffai'r Pwyllgor gael eglurder yn eu cylch.

**Cyfnod adfer a chyllid bysiau**

Dywedodd Nigel Winter wrth y Pwyllgor ei fod yn poeni a fyddai cwmnïau bysiau yn cael rhagor o gymorth i'w cefnogi drwy'r pandemig a sut y bydd cwmnïau bysiau yn gweithredu wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio yng Nghymru. Dywedodd Mr Winter nad oes trefniadau ar waith i symud i'r cam nesaf, pan fydd angen cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau wrth i ysgolion a siopau dianghenraid ailagor, ac wrth i'r rheoliadau o ran aros yn lleol gael eu llacio.

Dywedodd Mr Winter hefyd, er bod llai na phythefnos i fynd, nad oes trefniant cyllido credadwy wedi'i gytuno a'i bod yn hanfodol cael eglurder cyn gynted â phosibl.

Cred y Pwyllgor y dylai eglurder i weithredwyr bysiau fod yn flaenoriaeth ac y dylai Llywodraeth Cymru:

- gadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol, a hynny i'r gweithredwyr eu hunain ac i'r Pwyllgor, cyn gynted â phosibl, gan gynnwys cadarnhau'r lefelau cyllido a manylion unrhyw rwymedigaethau a osodir ar weithredwyr.

**Gorchuddion wyneb**

Roedd cynrychiolwyr yr undebau a'r gweithredwyr bysiau yn cefnogi'r syniad o'i gwneud yn orfodol i bobl wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gan fod angen gwisgo gorchuddion bellach yn Lloegr a'r Alban, roedd y ddau grŵp yn credu bod hyn yn creu ansicrwydd a diffyg eglurder yng Nghymru. Nodwyd bod hyn yn broblem benodol i wasanaethau trenau a bysiau trawsffiniol. Pwysleisiodd y tystion pa mor bwysig oedd cyfathrebu'n glir a rhoi negeseuon clir i'r cyhoedd, llawn cymaint ag iechyd y cyhoedd.

Yn sgil y dystiolaeth hon, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol rhoi negeseuon clir ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi:

- eich asesiad o oblygiadau'r gwahanol safbwyntiau ar fasgiau wyneb yng Nghymru a Lloegr a sut y gall gweithredwyr a'u staff reoli'r gwahanol ddulliau ar wasanaethau trawsffiniol; a
- rhagor o fanylion am y rhesymeg dros safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio masgiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yng ngoleuni'r dystiolaeth a'r ffaith bod angen eu gwisgo bellach ar drafnidiaeth gyhoeddus yn yr Alban a Lloegr.

**Tacsis a cherbydau hurio preifat**

Trafododd y Pwyllgor y materion y mae gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig. Fel y gwyddoch, mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio'n arbennig o wael ar incwm gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat. Roedd diogelwch gyrwyr hefyd yn bryder mawr o ystyried nad oes llawer y gallant ei wneud i gadw pellter cymdeithasol. Mae cyfran uchel o yrwyr yng nghanolfannau trefol Cymru o gefndiroedd BAME sy'n gwneud y mater hwn hyd yn oed yn fwy pryderus o ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu bod y cymunedau hynny'n wynebu risg uwch yn sgil COVID-19.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn awgrymu y byddai'n fanteisiol gosod sgriniau amddiffynnol mewn cerbydau.  Fodd bynnag, clywsom fod y sgriniau hyn yn ddrud iawn i yrwyr ar incwm isel. Mae'r Aelodau hefyd yn deall bod angen

cymeradwyaeth awdurdodau lleol i osod sgriniau ac y gallai fod angen i yrwyr sy'n gosod sgriniau yn eu cerbydau newid eu trwyddedau.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru weithredu'n gyflym i ddiogelu gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a'u teithwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech:

- amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar osod sgriniau mewn tacsis a cherbydau hurio preifat;
- nodi a yw Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cymorth ariannol neu gyngor i weithredwyr sydd am osod sgriniau;
- nodi a fyddai modd edrych ar y gyfraith o ran trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat i ddiwygio'r gofynion dros dro yng ngoleuni'r pandemig. Yn benodol, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried diwygio'r rheoliadau trwyddedu dros dro mewn perthynas â sgriniau amddiffynnol?

**Maes Awyr Caerdydd**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Faes Awyr Caerdydd am yr anawsterau a'r heriau y mae wedi'u hwynebu o ganlyniad i'r gostyngiad enfawr o ran teithio mewn awyrennau yn sgil y pandemig. Clywodd yr Aelodau fod benthyciad Llywodraeth Cymru, a drefnwyd yn flaenorol i wneud gwelliannau i'r Maes Awyr, bellach yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Maes Awyr i oroesi effeithiau'r pandemig.

Oherwydd y bu'n rhaid ailgyfeirio'r benthyciad, eglurodd Deb Bowen fod dau brosiect a gynlluniwyd i sicrhau bod y Maes Awyr yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth y DU wedi cael eu gohirio.  Roedd y Maes Awyr yn aneglur ynghylch sut y gellid ariannu o leiaf un o'r rhain yn y dyfodol.

Ym mis Chwefror nododd Andrew Slade fanylion benthyciadau Llywodraeth Cymru i'r Maes Awyr mewn llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fel rhan o hyn, nododd y byddai £6.8 miliwn o'r arian y gofynnwyd amdano yn amodol ar gymeradwyaeth, ynghyd â dadansoddiad ychwanegol ategol a diwydrwydd dyladwy ariannol. Pan ofynnwyd iddo am yr elfen honno o'r benthyciad, nododd Spencer Birns na allai siarad ar ran Llywodraeth Cymru o ran beth y gellid ei gymeradwyo ai peidio.

Mae'r Pwyllgor yn deall bod y Maes Awyr yn wynebu heriau digynsail ac o ganlyniad bydd angen iddo newid ei gynlluniau ariannol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod y newidiadau rheoliadol yr oedd angen y buddsoddiadau a drafodir uchod ar eu cyfer wedi cael eu gohirio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn poeni am effaith hirdymor gohirio'r prosiectau, a sut y cânt eu hariannu yn y pen draw. Hoffai'r Pwyllgor hefyd gael eglurhad ar elfennau'r benthyciad a drafodir uchod.

Yn ei adroddiad, Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru "roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar effaith ail-broffilio'r benthyciad i faes awyr Caerdydd, gan gynnwys pa rai o'r gwelliannau a gafodd eu clustnodi yn wreiddiol i'w hariannu a fydd yn cael eu gohirio a sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny. Dymuna'r Pwyllgor gael gwybod hefyd a yw'n debygol y bydd angen unrhyw gyllid tymor byr arall i gynorthwyo'r maes awyr." Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn hoffai'r Pwyllgor i'r Llywodraeth nodi:

- ei barn am sut y bydd Maes Awyr Caerdydd yn cyflawni ei rhwymedigaethau rheoliadol yn y dyfodol, er enghraifft pwyntiau sgrinio diogelwch y genhedlaeth nesaf.
- statws y £6.8 miliwn ac a fydd/ pryd y bydd yn cael ei gymeradwyo.

**Hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus a newid i deithio mewn ceir**

Clywodd yr Aelodau fod pryder y gallai'r pandemig wneud niwed hirdymor i hyder pobl mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o geir preifat. Dywedodd Mick Lynch ei fod yn ofni y bydd llawer o bobl yn dychwelyd i deithio mewn ceir.

Os na fydd pobl yn dychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, byddai hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar ansawdd aer, ein hôl troed carbon a thagfeydd. Ochr yn ochr â'r materion a godwyd uchod, fel gorchuddion wyneb a sgriniau mewn tacsis, hoffai'r Pwyllgor wybod cynlluniau Llywodraeth Cymru o ran:

- adfer hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus;
- ymateb i’r risg y bydd mwy o bobl yn defnyddio ceir; ac
- annog pobl i symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir yn sgil y pandemig.

**Caergybi**

Cododd Mick Lynch bryderon bod diswyddiadau ar fferïau Caergybi yn bygwth dyfodol gwasanaethau fferi i Iwerddon. Rydym wedi trafod cefnogaeth i Gaergybi yn y gorffennol ond hoffai'r Pwyllgor gael gwybod:

- eich barn am y risg o ran diswyddiadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i Gaergybi a'r gwasanaethau fferi yn sgil sylwadau Mr Lynch.

Cofion cynnes,



Russell George MS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon